

# Polisi Croesawu Maethu Sir y Fflint

Gweithio i Sir y Fflint a  
Maethu i Sir y Fflint



2020 - 2023

## Trosolwg

<b>POLISI</b>	Polisi Croesawu Maethu Sir y Fflint
<b>PERCHENNOG</b>	Uwch Reolwr AD ac OD
<b>CYSWLLT A ENWEBWYD</b>	Sian Croston <a href="mailto:sian.croston@flintshire.gov.uk">sian.croston@flintshire.gov.uk</a> Rachel Roberts <a href="mailto:Rachel.roberts@flintshire.gov.uk">Rachel.roberts@flintshire.gov.uk</a>
<b>ADOLYGWYD GAN</b>	Ymgynghorydd Polisi Adnoddau Dynol a Gwobrwyo
<b>DYDDIAD YR ADOLYGIAD DIWETHAF</b>	Medi 2020
<b>DYDDIAD YR ADOLYGIAD NESAF</b>	Medi 2023
<b>DOGFENNAU PERTHNASOL</b>	

## Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad Cyhoeddi	Awdur	Crynodeb o'r Newidiadau
1	Tachwedd 2016	Ymgynghorydd Polisi Adnoddau Dynol a Gwobrwyo	Newydd
1.1	Medi 2020	Ymgynghorydd Polisi Adnoddau Dynol a Gwobrwyo	Adolygiad Cylchol Dim newidiadau

## Ymgynghori

Fersiwn	Pwy	Dyddiad
1	AD, Undebau Llafur, COT	Hydref 2016

## Cymeradwyaeth

Fersiwn	Pwy/Ble	Dyddiad
1	FJTUC	Hydref 2016

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod bod gweithwyr sy'n maethu plentyn yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned ac i Gyngor Sir y Fflint.

Mae yna 64,000 o blant mewn gofal yn y Deyrnas Unedig a chyda phlentyn newydd mewn gofal bob 20 munud ac arno angen teulu maeth rydym ni'n cydnabod yr angen i wneud mwy i helpu i recriwtio gofalwyr maeth.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn awyddus i gefnogi gweithwyr sy'n ddarpar ofalwyr maeth a'r rheiny sydd eisoes yn darparu gofal drwy roi amser i ffwrdd iddyn nhw lle bo angen. Rydym ni'n cydnabod bod cefnogaeth y cyflogwr yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr i'r rheiny sy'n penderfynu maethu ai peidio.

## Cefndir

I fynd i'r afael â'r her faethu genedlaethol, ac i geisio annog mwy o weithwyr i ddod yn ofalwyr maeth, mae'r llywodraeth wedi galw ar gyflogwyr i fod yn "ystyriol o rieni maeth".

Rhan o'r ymgyrch genedlaethol i annog mwy o bobl i faethu yw "chwalu'r chwedl" nad ydych chi'n cael gweithio os ydych chi'n ofalwr maeth.

## Nod

Nod y polisi yma yw cefnogi gweithwyr Cyngor Sir y Fflint sydd eisoes yn ofalwyr maeth ac annog y rheiny sy'n ystyried dod yn ofalwyr maeth i gymryd y cam hwnnw, gan ddod yn fodolau rôl cadarnhaol ac ehangu'r gronfa o ofalwyr maeth sydd ar gael.

## Cwmpas

Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol i holl weithwyr a gyflogir gan y Cyngor, gan gynnwys gweithwyr ar gontractau dros dro a chyfnod penodol. Nid yw'r polisi hwn yn cynnwys gweithwyr asiantaeth na chontractwyr.

Nid yw'r polisi hwn ychwaith yn cynnwys staff a gyflogir gan Ysgolion Sir y Fflint, fodd bynnag argymhellir bod penaethiaid a chyrrff llywodraethu yn mabwysiadu'r polisi fel arfer da.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i weithwyr Cyngor Sir y Fflint sy'n gwneud cais i fod yn ofalwyr maeth neu sydd eisoes yn ofalwyr maeth ar gyfer Cyngor Sir y Fflint.

## Hawl i Absenoldeb

Gall gweithwyr y Cyngor sy'n gwneud cais i fod yn ofalwyr maeth cymeradwy Cyngor Sir y Fflint dderbyn hyd at 5 niwrnod o absenoldeb gyda thâl (pro rata i weithwyr rhan-amser) i fynychu cyfarfodydd, ymweliadau cartref neu hyfforddiant gorfodol fel rhan o'r broses baratoi ac asesu. Gellir cymryd yr absenoldeb hwn fesul hanner diwrnod lle bo'n briodol.

Os yw cwpl yn gwneud cais i ddod yn ofalwyr maeth a'r ddau yn gweithio i'r Cyngor, yna bydd gan y ddau hawl i'r diwrnodau o absenoldeb.

Gall gweithwyr sydd eisoes yn ofalwyr maeth cymeradwy Cyngor Sir y Fflint dderbyn hyd at 5 niwrnod o absenoldeb (pro rata i weithwyr rhan-amser) i fynychu cyfarfodydd, ymweliadau cartref, hyfforddiant neu i ymateb i anghenion y plentyn. Gellir cymryd yr absenoldeb hwn fesul hanner diwrnod lle bo'n briodol.

Mae'n rhaid i weithwyr sy'n dymuno cymryd diwrnod o absenoldeb dan y polisi hwn gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w rheolwr i ddangos eu bod yn ofalwyr maeth cymeradwy gyda Chyngor Sir y Fflint neu yn y broses o wneud cais i ddod yn ofalwyr maeth gyda Chyngor Sir y Fflint.

## Hyblygrwydd

Dylai rheolwyr fabwysiadu ymagwedd hyblyg a chymwynasgar i geisiadau am amser i ffwrdd, gwyliau a threfniadau gweithio hyblyg gan ofalwyr maeth a darpar ofalwyr maeth mewn perthynas â gofalu am blentyn sy'n derbyn gofal neu yn ystod y broses o ddod yn ofalwr maeth.

## Hyfforddiant a Datblygiad

Gall rheolwyr atebol gweithwyr sy'n dymuno maethu gyda Sir y Fflint dderbyn cyngor a chefnogaeth gan Adnoddau Dynol neu gydweithwyr o'r Undebau Llafur.

## Monitro a Gwerthuso

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â chyfraith cyflogaeth ac arfer gorau. Bydd unrhyw newid i'r polisi yn cael ei drefnu drwy'r Ymgynghorydd Polisi Adnodau Dynol a Gwobrwyo.